**ATODLEN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU 2026 - 2027**

Cafodd y Cynllun hwn ei lunio gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ynghylch Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n berthnasol i dalu aelodau ac Aelodau Cyfetholedig awdurdodau lleol.

1. Cyflog Sylfaenol

1.1 Bydd Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod.

1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei adolygu'n flynyddol fel y'i pennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

1.3 Pan fo cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n gorffen ar adeg ar wahân i ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl i Gyflog Sylfaenol ar sail pro-rata.

1.4 Nid yw mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2. Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig

2.1 Bydd Aelodau sydd â swyddi penodol yn derbyn Uwch Gyflog fel y'i pennir yn

Atodlen 1.

2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, caiff cyfraddau Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig

eu hadolygu'n flynyddol fel y penderfynir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

2.3 Dim ond un Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2.4 Ni ellir talu Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig i Aelod o'r Awdurdod.

2.5 Mae'r holl Uwch Gyflogau a'r Cyflogau Dinesig yn cynnwys Cyflog Sylfaenol.

2.6 Ni chaniateir talu Uwch Gyflog i fwy na'r nifer o aelodau a bennir gan

Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn ei Adroddiad Blynyddol (y "cap cyflog uwch") ac ni chaiff fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, ac eithrio cynnwys deiliad swydd Uwch Gyflog dros dro sy'n cyflenwi dros dro yn ystod absenoldeb teuluol deiliad y swydd benodedig.

2.7 Ni chaiff aelod o'r Awdurdod sy'n derbyn Uwch Gyflog dderbyn cyflog

gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) neu Awdurdod Tân ac Achub (ATA) y maent wedi'u henwebu ar eu cyfer.

2.8 Pan fo tymor Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig Aelod yn dechrau neu'n dod i ben heblaw ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd eu hawl i'r Cyflog yn pro-rata.

2A. Trefniadau Rhannu Swydd

2A.1 Lle mae Trefniadau Rhannu Swydd ar gyfer yr Arweinydd a/neu Aelodau'r Cabinet

wedi'u sefydlu o dan adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, telir cyfran briodol o'r hawl i uwch gyflog i bob un sy'n rhannu swydd.

2A.2 Ar gyfer pob trefniant rhannu swydd, cynyddir y cap cyflog uwch, yn amodol ar yr uchafswm statudol o 50% o aelodaeth y Cyngor.

3. Etholiad er mwyn Hepgor Hawl am Lwfans

3.1 Caiff Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol yr awdurdod,

ddewis yn bersonol hepgor unrhyw ran o'i hawl am gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad hwn.

4. Gwahardd Aelod

4.1 Pan fo Aelod o'r Awdurdod wedi'i atal dros dro neu ei atal yn rhannol dros dro o'i

gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed dan y Ddeddf, ni fydd yr Awdurdod yn talu'r rhan honno o'r Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy dros y cyfnod y mae wedi'i wahardd (Adran 155 (1) o'r Mesur).

4.2 Pan fo Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog yn cael ei atal neu ei atal yn rhannol

o fod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio â gwneud taliadau o Uwch Gyflog yr Aelod am gyfnod yr ataliad (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r gwaharddiad rhannol yn berthnasol i elfen cyfrifoldeb penodol y taliad yn unig, mae'n bosib i'r Aelod barhau i dderbyn y Cyflog Sylfaenol.

5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd

5.1 Pan delir unrhyw gyflog, lwfans neu ffi i Aelod o'r

Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig am unrhyw gyfnod y mae'r Aelod dan sylw:

(a) wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal yn rhannol dros dro o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau'r Aelod neu'r Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu reoliadau a wnaethpwyd dan y Ddeddf honno;

(b) yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod neu'n Aelod Cyfetholedig; neu

(c) mewn unrhyw ffordd arall yn anaddas i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw,

Bydd yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol iddo ad-dalu'r arian a dalwyd iddo dros y cyfnod perthnasol.

6. Taliadau

6.1 Bydd taliadau'r holl gyflogau, lwfansau neu ffioedd yn cael eu gwneud gan Dim Cyflogres y Cyngor

drwy drosglwyddiad BACS mewn rhandaliadau o un deuddegfed rhan o hawl blynyddol yr Aelod, fel arfer ar y 15fed o bob mis.

6.2 Pan fo taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy na'i hawl

i gyflog, lwfansau neu ffioedd bydd yr Awdurdod yn mynnu bod y rhan honno sy'n ordaliad yn cael ei had-dalu.

6.3 Mae pob taliad yn destun didyniadau treth ac Yswiriant Gwladol priodol.

7. Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol

7.1 Bydd cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol yn cael ei dalu i

Aelod neu Aelod Cyfetholedig, y mae ganddo gyfrifoldeb gofal dros blant neu oedolion sy’n dibynnu arno, neu dros angen gofal personol, os yw’r costau yn talu am ofal ar gyfer y rhai hynny tra mae'r Aelod yn ymgymryd â dyletswyddau i'r Cyngor a’u 'cymeradwywyd'.

7.2 Mae Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol yn berthnasol i

ddibynnydd o dan 16 oed, neu blentyn neu oedolyn sydd fel arfer yn byw gyda'r aelod fel rhan o'i deulu ac na ellir ei adael heb oruchwyliaeth y gall yr Aelod neu'r Aelod Cyfetholedig ddangos bod angen gofal ar ei gyfer. Os oes gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig fwy nag un unigolyn dibynnol, gall yr Aelod hawlio mwy nac un lwfans, cyn belled ag y bo modd i’r Aelod ddangos tystiolaeth o’r angen i wneud trefniadau gofal ar wahân.

7.3 Gall Aelodau Cymwys hawlio cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol

ar gyfer costau gwirioneddol a derbyniwyd fel y nodir yn Atodlen 1. Dylai pob cais ar gyfer y cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol gael ei wneud yn ysgrifenedig i’r Gwasanaethau Democrataidd gan fanylu amseroedd, dyddiadau a rhesymau dros gais. Rhaid dangos derbyniadau ar gyfer trefniadau gofal ffurfiol ac anffurfiol.

8. Absenoldeb Teuluol

8.1

Mae gan Aelodau hawl dan ddarpariaethau Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol, ac os maent yn bodloni’r amodau penodol mae ganddynt yr hawl i fod yn absennol yng nghyfarfodydd yr awdurdod.

8.2 Wrth gymryd absenoldeb teuluol, mae gan aelodau hawl i gadw cyflog sylfaenol

waeth beth fo'u cofnod presenoldeb yn union cyn dechrau'r absenoldeb teuluol.

8.3 Os bydd deiliad cyflog uwch yn gymwys ar gyfer absenoldeb teuluol, byddant yn gallu

parhau i dderbyn ei uwch gyflog drwy gydol yr absenoldeb.

8.4 Os yw'r awdurdod yn cytuno bod angen gwneud penodiad dros dro yn ystod absenoldeb

teuluol deiliad swydd aelod sy’n derbyn uwch gyflog, bydd yr eilydd hwnnw yn gymwys i gael uwch gyflog ar ddisgresiwn yr awdurdod.

8.5 Os yw'r taliad hwn yn arwain at yr awdurdod yn talu mwy na'i uchafswm

o gyflogau uwch, caniateir ychwanegiad at yr uchafswm yn ystod y cyfnod y bydd yr aelod dros dro wedi’i benodi.

9. Taliadau Aelodau Cyfetholedig

9.1 Talir ffi ddyddiol (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod ac awr) i

gyfetholwyr statudol (gan gynnwys Aelodau Annibynnol) sydd â hawliau pleidleisio. Rhaid i hawliadau fod yn gysylltiedig â dyletswyddau cymeradwy gan gynnwys mynychu Pwyllgorau, Is-bwyllgorau, Panelau, Gweithgorau, grwpiau Gorchwyl a Gorffen, Arsylwi cyfarfodydd gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau a Moeseg, cyn-gyfarfodydd gyda swyddogion yn bresennol, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau.

9.2 Mae Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fel y "swyddog priodol" dynodedig wedi

penderfynu bod y cyfarfodydd a drefnir yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor wedi'u hawdurdodi'n briodol ar gyfer y "gyfradd dalu hyd at 4 awr" (Hanner diwrnod) hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn i bedair awr fynd heibio.

9.3 Ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol, bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn pennu naill ai cyfradd dalu lawn (4 awr a mwy) neu hanner diwrnod (hyd at 4 awr) yn unol â hynny.

9.4 Caniateir un hawliad fesul cyfarfod sy'n cynnwys hyd y cyn-gyfarfod a chyfarfod y pwyllgor.

9.5 Hawliadau am ddyletswyddau cymeradwy gan gynnwys amser paratoi rhesymol, amser teithio (os o gwbl), presenoldeb mewn grwpiau gorchwyl a gorffen neu weithgorau, arsylwi cyfarfodydd gan aelodau'r Pwyllgor Safonau a Moeseg, cyfarfodydd swyddogion, hyfforddiant, presenoldeb mewn cynadleddau awdurdodedig yn cael eu talu hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol fesul awr.

9.6 Mae’r ffi ddyddiol, hanner diwrnod ac awr i Gadeiryddion y Pwyllgor Safonau

ac Archwilio, fel y'i penderfynwyd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, wedi'i nodi yn Atodlen 1.

9.7 Mae’r ffi ddyddiol, hanner diwrnod a ffi bob awr ar gyfer Cyfetholiadau statudol eraill (gan gynnwys

Aelodau Annibynnol) sydd â hawliau pleidleisio, fel y'u pennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, wedi'i nodi yn Atodlen 1.

10. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

10.1 Egwyddorion Cyffredinol

10.2 Mae gan aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawl i hawlio costau teithio wrth deithio ar

fusnes yr Awdurdod ar gyfer 'dyletswyddau cymeradwy' fel y nodir yn Atodlen 2. Pan fydd Aelodau'n teithio ar fusnes yr Awdurdod, disgwylir iddynt deithio trwy'r dulliau mwyaf cost-effeithiol. Ystyrir hyd y daith wrth asesu effeithiolrwydd cost. Gall hawliad Aelod leihau o swm priodol os nad yw Aelod yn defnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol o deithio.

10.3 Dylai Aelodau rannu trafnidiaeth pan fo'n bosib gwneud hynny.

10.4 Dylai'r pellter a hawliwyd am filltiroedd fod y daith resymol fyrraf ar y

ffordd o'r pwynt dechrau i'r pwynt y gwneir y ddyletswydd, ac yn yr un modd o bwynt y ddyletswydd i'r pwynt dychwelyd.

10.5 Mae cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth yr Aelodau wedi'u nodi yn Atodlen

3 ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

10.6 Pan fo Aelod o'r Awdurdod wedi'i atal dros dro neu ei atal yn rhannol dros dro o'i

gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed dan y Ddeddf, ni fydd yr Awdurdod yn talu unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy dros y cyfnod y mae wedi'i atal dros dro neu ei atal yn rhannol dros dro.

11. Teithio mewn Cerbyd Preifat

11.1 Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi penderfynu

y dylai uchafswm y graddfeydd teithio sy'n daladwy fod y graddfeydd a bennir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi er diben ceir preifat, beiciau modur a beiciau ynghyd ag ychwanegiad teithiwr.

11.2 Mae'r cyfraddau milltiroedd ar gyfer cerbydau preifat fel y'u pennir gan

Gomisiwn Ffiniau Cymru wedi'u nodi yn Atodlen 3.

11.3 Pan fo Aelod yn defnyddio'i gerbyd preifat ei hun at ddibenion dyletswyddau cymeradwy, rhaid sicrhau bod y cerbyd wedi'i yswirio ar gyfer defnydd busnes.

Rhaid dangos tystiolaeth o yswiriant priodol ar gais yr Awdurdod. Rhaid cyflwyno derbynneb TAW Tanwydd ddilys gyda hawliadau.

12. Teithio ar Drafnidiaeth Gyhoeddus

12.1 <u>Teithio ar Drên / Bws</u>

Oni bai y cymeradwyir fel arall, bydd tocynnau trên yn rhai ail ddosbarth.

Fel arfer, bydd Gwasanaethau Democrataidd/Swyddfa Cymorth y Cabinet yn prynu'r tocynnau trên neu fws perthnasol i Aelodau cyn y daith.  Yn yr achos annhebygol bod angen i Aelod brynu tocyn yn uniongyrchol, bydd yr arian yn cael ei ad-dalu wrth iddo ddangos y tocyn a ddefnyddiwyd a/neu'r dderbynneb.

12.2 Prisiau Tacsi

Bydd prisiau tacsi yn cael eu had-dalu pan fo defnyddio tacsi wedi'i awdurdodi ar gyfer achosion brys, pan nid yw trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn rhesymol, neu pan fydd gan Aelod angen personol penodol.  Dim ond drwy ddangos derbynneb y bydd y pris yn cael ei ad-dalu.

12.3 Prisiau Hedfan

Oni bai y cymeradwyir fel arall, bydd tocynnau hediadau yn rhai dosbarth economi neu rad. Bydd tocynnau hediadau â disgownt yn cael eu prynu ymhell ymlaen llaw ble y bo'n bosib er mwyn lleihau costau.

Caniateir teithio ar awyren os mai dyma yw'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o deithio.  Rhaid cael cymeradwyaeth Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, a bydd tocynnau fel arfer yn cael eu prynu gan y Gwasanaethau Democrataidd neu Swyddfa Cymorth y Cabinet, fel sy'n briodol.

12.4 Teithio Dramor

Dim ond ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y caniateir teithio dramor ar fusnes yr Awdurdod.   Fel arfer, bydd Gwasanaethau Democrataidd neu Swyddfa Cymorth y Cabinet yn trefnu teithio a llety.

12.5 Costau Teithio Eraill

Bydd gan Aelodau'r hawl i gael arian yn ôl am ffioedd toll, ffioedd parcio, cadw car dros nos a chostau teithio angenrheidiol cysylltiedig eraill. Dim ond drwy ddangos derbynneb y bydd y pris yn cael ei ad-dalu.

13. Llety Dros Nos

13.1 Caniateir aros dros nos dim ond pan fo busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau

ddiwrnod neu fwy, neu mae'r lleoliad ar y fath bellter y byddai teithio yn gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y nos yn afresymol.   Rhaid i bob cyfnod dros nos gael ei awdurdodi ymlaen llaw gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

13.2 Fel arfer, bydd llety dros nos yn cael ei archebu gan y Gwasanaethau Democrataidd neu Swyddfa Cymorth y Cabinet, fel sy'n briodol.

Swyddfa'r Cabinet, fel y bo'n berthnasol.  Ble y bo'n bosib, bydd y llety dros nos yn cael ei dalu ymlaen llaw neu'n cael ei anfonebu.

13.3 Caniateir i Aelod archebu llety dros nos yn uniongyrchol mewn achos brys yn unig.

Bydd y ffioedd yn cael ei ad-dalu drwy ddangos derbynneb, a bydd ar lefel a bennir yn rhesymol, ddim mwy na'r graddfeydd a bennir yn Atodlen 3.

14. Lwfans Cynhaliaeth

14.1 Mae'r gyfradd gynhaliaeth ddydd i dalu costau prydau bwyd a lluniaeth yn ystod

dyletswyddau cymeradwy (gan gynnwys brecwast pan na ddarperir fel rhan o lety dros nos) wedi'i nodi yn Atodlen 3. Mae uchafswm y gyfradd ddyddiol yn cynnwys cyfnod o 24 awr a all gael ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd perthnasol, cyn belled a bod pob hawliad wedi'i ategu gan dderbynneb.

14. 2 Dim ond gyda chymeradwyaeth uwch gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y caniateir hawliadau cynhaliaeth yn ardal Caerdydd.

15. Hawliadau a Thaliadau

15.1 Rhaid gwneud unrhyw hawliad yn ysgrifenedig erbyn diwrnod cyntaf pob mis neu'r

diwrnod gwaith blaenorol os yw'n disgyn ar ddydd Sadwrn, dydd Sul neu Ŵyl y Banc gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol. Os byddwch yn methu gwneud hyn, ni wneir taliad.

- Rhaid i hawliad am gostau teithio ddod gyda derbynneb TAW perthnasol.
- Rhaid i hawliad am dreuliau cynhaliaeth ddod gyda'r derbynebau perthnasol.
- Rhaid cyflwyno unrhyw hawliadau o fewn 3 mis o'r digwyddiad ac yn ystod y flwyddyn gyfrifo berthnasol (h.y. erbyn 4 Ebrill bob blwyddyn).

15.2 Bydd lwfansau yn cael eu talu gan dîm Cyflogau'r Cyngor gan drosglwyddiad BACS.

16. Pensiynau

16.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei Aelodau sy'n gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

17 Cefnogi gwaith Aelodau'r Awdurdod

17.1 Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn disgwyl i Aelodau gael

cymorth digonol i gyflawni eu dyletswyddau ac y dylai'r cymorth a ddarperir ystyried anghenion penodol Aelodau unigol. Mae'n ofynnol i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr Awdurdod adolygu lefel y cymorth a ddarperir i'r Aelodau a dylai dderbyn cynigion am gymorth rhesymol i'r Cyngor llawn.

17.2 Dylid darparu

cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd i Aelodau Etholedig a Chyfetholedig i roi mynediad electronig at wybodaeth briodol.

17.3 Dylai'r gefnogaeth hon fod am ddim i unrhyw Aelod. Ni ddylid gwneud didyniadau

o gyflogau'r Aelodau fel cyfraniad tuag at gost y cymorth y mae'r Awdurdod wedi penderfynu sy'n angenrheidiol ar gyfer effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr Aelodau.

18 Cydymffurfio

18.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â

gofynion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o ran monitro a chyhoeddi taliadau a wneir i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig fel y nodir yn Atodlen 4.

**Atgoffir yr Aelodau bod hawliadau costau yn destun archwilio mewnol ac allanol.**

# ATODLEN 1

## ATODLEN TALIADAU CYDNABYDDIAETH 2026-27

| AELODAU SYDD Â HAWL I GYFLOG SYLFAENOL | SWM BLYNYDDOL O GYFLOG SYLFAENOL |
|---|---|
| Mae Aelodau Etholedig canlynol yr Awdurdod yn derbyn y Cyflog Sylfaenol: | **£21,044** |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Waheeda Abdul Sattar | Y Cynghorydd Andrea Gibson | Y Cynghorydd Oliver Owen |
| Y Cynghorydd Ali Ahmed | Y Cynghorydd Jamie Green | Y Cynghorydd Marc Palmer |
| Y Cynghorydd Saleh Ahmed | Y Cynghorydd Helen Gunter | Y Cynghorydd Jackie Parry |
| Y Cynghorydd Dilwar Ali | Y Cynghorydd Graham Hinchey | Y Cynghorydd Lexi Pocknell |
| Y Cynghorydd Anny Anderson | Y Cynghorydd Robert Hopkins | Y Cynghorydd Emma Reid-Jones |
| Y Cynghorydd Mike Ash-Edwards | Y Cynghorydd Garry Hunt | Y Cynghorydd Adrian Robson |
| Y Cynghorydd Claudia Boes | Y Cynghorydd Peter Jenkins | Y Cynghorydd Julie Sangani |
| Y Cynghorydd Bernie Bowen-Thomson | Y Cynghorydd Jackie Jones | Y Cynghorydd Jon Shimmin |
| Y Cynghorydd Catriona Brown-Reckless | Y Cynghorydd Keith Jones | Y Cynghorydd Elaine Simmons |
| Y Cynghorydd Kate Carr | Y Cynghorydd Maliika Kaaba | Y Cynghorydd Kanaya Singh |
| Y Cynghorydd Joe Carter | Y Cynghorydd Imran Latif | Y Cynghorydd Rhys Taylor |
| Y Cynghorydd James Caruana | Y Cynghorydd Margaret Lewis | Y Cynghorydd Edward Topham |
| Y Cynghorydd Jasmin Chowdhury | Y Cynghorydd Peter Littlechild | Y Cynghorydd Daniel Waldron |
| Y Cynghorydd Jayne Cowan | Y Cynghorydd Rhys Livesy | Y Cynghorydd Caro Wild |
| Y Cynghorydd Stephen Cunnah | Y Cynghorydd Lloyd-Jones | Y Cynghorydd Joel Williams |
| Y Cynghorydd Bob Derbyshire | Y Cynghorydd Neil McEvoy | Y Cynghorydd Ashley Wood |
| Y Cynghorydd Sean Driscoll | Y Cynghorydd Mary McGarry | Y Cynghorydd Matthew Youde |
| Y Cynghorydd Saeed Ebrahim | Y Cynghorydd Siân-Elin Melbourne | |
| Y Cynghorydd Susan Elsmore | Y Cynghorydd Bablin Molik | |

| AHW | HAWLIAU UWCH GYFLOGAU (yn cynnwys Cyflog Sylfaenol) | | SWM BLYNYDDOL O UWCH GYFLOG |
|---|---|---|---|
| | RÔL | AELOD | |
| 1. | Yr Arweinydd | Y Cynghorydd Chris Weaver | £78,917 |
| 2. | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg | Y Cynghorydd Sarah Merry | £55,242 |
| 3. | Yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad | Y Cynghorydd Leonora | £47,350 |

| AHW | HAWLIAU UWCH GYFLOGAU (yn cynnwys Cyflog Sylfaenol) | | SWM BLYNYDDOL O UWCH GYFLOG |
|---|---|---|---|
| | **RÔL** | **AELOD** | |
| | | Thomson | |
| 4. | Yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant Hamdden a Thwristiaeth | Y Cynghorydd Jennifer Burke | £47,350 |
| 5. | Yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd, Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth | Y Cynghorydd Dan De'Ath | £47,350 |
| 6. | Yr Aelod Cabinet dros Wastraff, Strydlun a Gwasanaethau Amgylcheddol | Y Cynghorydd Ed Stubbs | £47,350 |
| 7. | Yr Aelod Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Cydlyniant a Digidol | Y Cynghorydd Bethan Proctor | £47,350 |
| 8. | Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol | Y Cynghorydd Ash Lister (Rhannu Swydd Aelod Cabinet, gweler nodyn 1) | £34,197 |
| 9. | Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol | Y Cynghorydd Norma Mackie (Rhannu Swydd yr Aelod Cabinet gweler nodyn 1) | £34,197 |
| 10. | Yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau | Y Cynghorydd Lynda Thorne (Rhannu Swydd yr Aelod Cabinet gweler nodyn 1) | £34,197 |
| 11. | Yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau | Y Cynghorydd Lee Bridgeman (Rhannu Swydd yr Aelod Cabinet gweler nodyn 1) | £34,197 |
| 12. | Yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi, Cyflogaeth a Thwf Cynhwysol | Y Cynghorydd Russell Goodway (Rhannu Swydd Aelod Cabinet, gweler nodyn 1) | £34,197 |
| 13. | Yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi, Cyflogaeth a Thwf Cynhwysol | Y Cynghorydd Peter Bradbury (Rhannu Swydd Aelod Cabinet, gweler nodyn 1) | £34,197 |
| 14. | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc | Y Cynghorydd Jess Moultrie | £31,567 |
| 15. | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion | Y Cynghorydd Dan Naughton | £31,567 |
| 16. | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant | Y Cynghorydd Peter Wong | £31,567 |
| 17. | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol | Y Cynghorydd Owen Jones | £31,567 |

| AHW | HAWLIAU UWCH GYFLOGAU (yn cynnwys Cyflog Sylfaenol) | | SWM BLYNYDDOL O UWCH GYFLOG |
|---|---|---|---|
| | RÔL | AELOD | |
| 18. | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad | Y Cynghorydd Callum Davies | £31,567 |
| 19. | Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio | Y Cynghorydd Irene Humphreys | £31,567 |
| 20. | Cadeirydd y Pwyllgorau Trwyddedu a Diogelwch Cyhoeddus | Y Cynghorydd Grace Ferguson-Thorne | £31,567 |
| 21. | Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf | Y Cynghorydd Rodney Berman | £31,567 |
| 22. | Arweinydd Grŵp Gwrthblaid Arall | Y Cynghorydd John Lancaster | £25,253 |

*Nodyn:*

1. *Mae cyfanswm o 22 o ddeiliaid uwch gyflog, sy'n cynnwys 3 swydd sy'n destun trefniadau rhannu swydd, ac mae'r cap uwch gyflog o 19 yn cael ei gynyddu yn unol â hynny.*

| HAWL I GAEL CYFLOG DINESIG (yn cynnwys Cyflog Sylfaenol) | | SWM BLYNYDDOL O GYFLOG DINESIG |
|---|---|---|
| RÔL | AELOD | |
| Pennaeth Dinesig (Maer / Cadeirydd) | Y Cynghorydd Adrian Robson (tan 21 Mai 26)<br>Y Cynghorydd Michael Michael (o 21 Mai 26) | £31,567 |
| Dirprwy Bennaeth Dinesig (Dirprwy Faer/Cadeirydd) | Y Cynghorydd Sue Lent | £25,253 |

| HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL | | SWM Y LWFANSAU I AELODAU CYFETHOLEDIG |
|---|---|---|
| RÔL | AELOD | |

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg | Jason Bartlett | £268 - Ffi Ddyddiol (4 awr a throsodd)<br>£134 - Ffi 1/2 Diwrnod (hyd at 4 awr)<br>£33.50 - Ffi yr awr |
| Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Gavin McArthur | £268 - Ffi Ddyddiol (4 awr a throsodd)<br>£134 - Ffi 1/2 Diwrnod (hyd at 4 awr)<br>£33.50 - Ffi yr awr |
| Aelodau Cyfetholedig Statudol – aelodau arferol: | • Patricia Arlotte | £210 - Ffi Ddyddiol (4 awr a throsodd)<br>£105 - Ffi 1/2 Diwrnod (hyd at 4 awr) |
| **HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL** | | **SWM Y LWFANSAU I AELODAU CYFETHOLEDIG** |
| **RÔL** | **AELOD** | |
| Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc | • Carol Cobert<br>• Bridgid Corr<br>• Elisabeth Hagen | £26.25 - Ffi yr awr |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | • David Price<br>• Dr Janet Wademan<br>• Chris Burns | |
| Pwyllgor Safonau a Moeseg | • David Mills<br>• Louise Evans<br>• Rashpal Singh<br>• Stephanie Yung<br>• Y Cynghorydd Cymunedol Julia Charles<br>• Y Cynghorydd Cymunedol Mike Jones-Pritchard (Dirprwy) [1] | |

| **Cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol** | |
|---|---|
| Pob Aelod | |

- Costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru) i'w talu fel y dangosir.
- Costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) i'w talu hyd at uchafswm cyfradd sy'n cyfateb i Gyflog Byw Go Iawn y DU ar yr adeg yr eir i'r costau.

| **Cymorth i Aelodau – yr hyn sy'n cael ei ddarparu o ran ffôn, rhyngrwyd neu e-bost (gweler Penderfyniad 9)** | |
|---|---|
| Cymorth Ffôn i Aelodau Gweithredol | Oes |
| Cymorth Ffôn i Gadeiryddion Pwyllgorau | Oes<br>Ac eithrio Cadeiryddion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Safonau a Moeseg. |

[1]*Byddai'r Cynghorydd Cymuned Dirprwyol yn eistedd ar unrhyw Banel Gwrandawiadau Is-Bwyllgor a allai gael ei gynnull mewn achos lle na all yr Aelod o'r Pwyllgor Cymunedol weithredu oherwydd gwrthdaro buddiannau.*

| | |
|---|---|
| Cymorth Ffôn i bob Aelod arall | Oes<br>Ac eithrio Aelodau Cyfetholedig ac Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg, y Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifanc, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |
| Mynediad E-bost ar gyfer Aelodau Gweithredol | Oes |
| Mynediad E-bost ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau | Oes |
| Mynediad E-bost ar gyfer pob Aelod arall | Oes<br>Ac eithrio Aelodau Cyfetholedig ac Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg, y Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifanc, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |
| Cymorth Rhyngrwyd i Aelodau Gweithredol | Oes<br>(yn ôl yr angen) |
| Cymorth Rhyngrwyd i Gadeiryddion Pwyllgorau | Oes<br>(yn ôl yr angen) |
| Cymorth Rhyngrwyd i bob Aelod arall | Oes<br>(yn ôl yr angen) |

## ATODLEN 2

**Dyletswyddau sydd wedi'u cymeradwyo:**

- mynd i gyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw bwyllgor yr Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn penodi neu'n enwebu iddo neu unrhyw bwyllgor corff o'r fath;
- mynd i gyfarfod unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod ohoni;
- mynd i unrhyw gyfarfod arall sydd wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod neu gan bwyllgor o'r Awdurdod neu gan gydbwyllgor o'r Awdurdod ac un neu fwy o Awdurdodau eraill;
- dyletswydd a wneir er diben neu mewn perthynas â swyddogaethau'r Cabinet;
- dyletswydd a wneir mewn perthynas â gorchymyn sefydledig sy'n golygu bod rhaid i Aelodau neu Aelod fod yn bresennol pan fo dogfennau tendr yn cael eu hagor;
- dyletswydd a wneir mewn perthynas ag unrhyw swyddogaeth yr Awdurdod sy'n grymuso neu sy'n gofyn i'r Awdurdod archwilio neu awdurdodi archwilio eiddo;
- ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant neu ddigwyddiad datblygu a gymeradwyir gan yr Awdurdod, y Cabinet neu Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.
- y dyletswyddau canlynol sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor:

o Bod yn bresennol mewn unrhyw ddigwyddiad datblygu anwleidyddol personol neu weithgaredd sy'n berthnasol i rôl yr aelod unigol gyda chytundeb ymlaen llaw Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

o Bod yn bresennol mewn cyfarfodydd sy'n ymwneud â diogelwch personol Aelod unigol.

o Dyletswydd a gyflawnir at ddibenion, neu mewn cysylltiad â, chyflawni'r rolau y mae Aelod wedi'i benodi iddynt gan y Cyngor, er enghraifft, Cadeiryddion Pwyllgorau.

# ATODLEN 3

**Cyfraddau Costau Teithio**

| | |
|---|---|
| Pob maint o gerbyd modur preifat<br>Hyd at 10,000 milltir<br>Dros 10,000 milltir | 45 ceiniog y filltir<br>25 ceiniog y filltir |
| Beiciau Modur Preifat<br>Beiciau | 24 ceiniog y filltir<br>20 ceiniog y filltir |
| Ychwanegiad teithiwr | 5 ceiniog y teithiwr y filltir |

**Lwfans Cynhaliaeth**

Mae'r raddfa gynhaliaeth diwrnod hyd at uchafswm o £28 ac yn berthnasol dros gyfnod o 24 awr, a gellid ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd perthnasol, cyn belled a bod hawliad yn cael ei ategu gan dderbynebion.

Ni chaniateir ad-dalu am ddiodydd ag alcohol ynddynt.

**Aros Dros Nos**

Yr uchafswm o lwfans ar gyfer aros dros nos yw £200 ar gyfer Llundain a £95 ar gyfer pob man arall.

Mae uchafswm o £30 ar gael ar gyfer aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau tra'n gweithio ar ddyletswyddau cymeradwy.

## ATODLEN 4

Cydymffurfio

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i gyhoeddi, ar wefan y Cyngor, y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob Aelod ac Aelod Cyfetholedig mewn perthynas â chyflog, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau ddim hwyrach na 30 Medi ar ôl diwedd y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Er mwyn bod yn eglur, bydd hyn yn cynnwys taliadau cydnabyddiaeth holl benodiadau gwasanaeth cyhoeddus yr Aelodau Etholedig.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd ar wefan y cyngor a disgrifiadau swydd pob unigolyn sydd ag uwch gyflog, sy'n nodi'n glir y dyletswyddau a ddisgwylir.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi atodlen flynyddol taliadau cydnabyddiaeth aelodau ar wefan y Cyngor ddim hwyrach na 31 Gorffennaf yn ystod y flwyddyn y mae'r atodlen yn berthnasol iddi.

- Bydd yr Awdurdod yn anfon copi o'r atodlen i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf yn ystod y flwyddyn y mae'r atodlen yn berthnasol iddi.

- Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion presenoldeb Aelodau neu Aelodau Cyfetholedig yng nghyfarfodydd y Cyngor, Cabinet a'r pwyllgorau a dyletswyddau eraill a gymeradwywyd y gall Aelod neu Aelod Cyfetholedig hawlio ad-daliad ar eu cyfer.

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu cyhoeddi adroddiadau blynyddol Aelodau ar wefan y Cyngor.

- Pan fo Awdurdod yn cytuno absenoldeb teuluol â thal, bydd yn hysbysu'r Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o fewn 14 diwrnod o ddyddiad penderfynu ar y manylion, gan gynnwys y swydd benodol a chyfnod yr absenoldeb.